Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Amcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:


- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygymraeg.cymru



**Efa Gruffudd Jones**

**Comisiynydd y Gymraeg**

**24 Hydref 2023**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rhagair | 1 |
| 2 | Cais Cyllido’r Amcangyfrif | 2 |
| 3 | Tybiaethau’r Amcangyfrif | 2 |
| 4 | Amcangyfrif Gwariant Refeniw a Sylwadau | 6 |
| 5 | Dibrisiant | 12 |
| 6 | Buddsoddi ar Gyfalaf | 13 |
| 7 | Gofynion Arian Parod | 13 |

# 1 Rhagair

1.1 Paratowyd yr Amcangyfrif hwn yn unol â gofynion statudol er mwyn sicrhau adnoddau digonol i gyflawni rhaglen waith Comisiynydd y Gymraeg yn 2024-25.

1.2 Gweledigaeth y Comisiynydd yw Cymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg. Mae gweledigaeth, amcanion strategol a blaenoriaethau'r Comisiynydd am y cyfnod 2022 i 2025 wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Comisiynydd. Mae'r Amcangyfrif wedi'i ddatblygu gyda golwg ar alluogi'r Comisiynydd i weithredu'r cynllun strategol mewn cyfnod sy'n heriol yn ariannol, ac yn seiliedig ar yr wybodaeth orau ar ddechrau mis Hydref 2023.

1.3 Yn unol â chais Gweinidog y Gymraeg, wrth ddyrannu cyllideb 2023-24, i chwilio am arbedion; rydym wedi adnabod yr ystâd swyddfeydd fel y cyfle gorau i wneud hynny. Rydym wedi mynd i'r afael â'r gwaith i leihau'r ystâd er mwyn cyflawni'r arbedion o **£97,000** ym mlwyddyn ariannol 2024-25. Mae mwy o wybodaeth ym mharagraffau 4.19 i 4.22.

1.4 Mae'r Amcangyfrif yn dangos, tu hwnt i'r arbedion o ran yr ystâd, bod angen cynnydd o **£147,000** i gyllideb refeniw y Comisiynydd ar gyfer 2024-25 i gynnal yr un gweithgareddau. Nodir y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn isod.

1.5 Bydd cynnydd o **£32,000** i gyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Disgwylir bod hwn yn cael ei ariannu yn ganolog, yn unol â datganiad Prif Ysgrifennydd y Trysorlys.

1.6 Yn ychwanegol i'r cynnydd i gyfraniadau pensiwn y cyfeirir ato uchod, mae'r dybiaeth y bydd cynnydd o 5.0% i gyflogau yn ychwanegu **£132,000** at gostau cyflogaeth yn 2024-25. Gan fod y Comisiynydd y cyflogi staff ar gyfraddau cyflog sy'n gyson â rhai Llywodraeth Cymru, nid yw'r sefydliad yn gallu dylanwadu ar unrhyw setliad sy'n cael ei gytuno gan y Llywodraeth.

1.7 Pe na bai cynnydd i'r gyllideb waelodol i ganiatáu am y cynnydd i godiad chwyddiant cyflogau, gyda'r gyllideb refeniw yn cael ei chadw ar lefel waelodol o **£3,357,000** (ac eithrio'r cynnydd pensiwn), byddai'n anorfod gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni arbedion o **£147,000**. Byddai'r effaith ar y gwaith yn cynnwys:

- lleihau gwariant rhaglenni (sydd ond yn **£150,000**) ac sy'n cynnwys gwariant sy'n angenrheidiol: e.e. dosbarthu nwyddau Iaith Gwaith, mynychu eisteddfodau, cyhoeddi adroddiad sicrwydd, gwaith hybu yn y sector preifat, a gwaith cyhoeddusrwydd.
- lleihau costau teithio: noder bod y cynlluniau yn llai na 50% o'r gwariant cyn covid-19, ac yn sylfaenol i rediad y sefydliad.
- lleihau costau cyfieithu a chyfreithiol: mae mwyafrif y gwariant yn ymwneud â gwaith rheoleiddio'r sefydliad, sy'n angenrheidiol.
- lleihau costau staffio: rydym eisoes yn cyflogi 4 swyddog yn llai na 2015-16.

1.8 Ceir mwy o fanylder ar y materion uchod yn adrannau dilynol y papur.

# 2 Cais Cyllido'r Amcangyfrif

2.1 Mae'r Amcangyfrif yn tybio y bydd y Comisiynydd yn parhau i weithredu Cynllun Strategol 2022-25, ac yn gwneud cais am yr isafswm cyllid sydd ei angen i gyflawni strategaeth, blaenoriaethau a dyletswyddau sylfaenol y sefydliad.

2.2 Mae'r gofynion cyllidebu wedi eu nodi yn y tabl isod. Nodir tybiaethau cynllunio wrth baratoi'r Amcangyfrif yn adran 3 a'r manylion pellach ar y gwariant yn adrannau 4 i 7 y ddogfen.

| **Categorïau Cyllidebu** | **Adran** | **Cyllideb 2023-24 £000** | **Amcangyfrif 2024-25 £000** | **Cynnydd (Lleihad) £000** |
|---|---|---|---|---|
| Refeniw [1] | 4 | 3,357 | 3,504 | 147 |
| Symiau nad yn arian parod [1] | 5 | 169 | 114 | (55) |
| Cyfalaf | 6 | 50 | 60 | 10 |
| Arian Parod | 7 | | 3,508 | |

[1] Noder bod y cais am gyllid yn y tabl uchod, wedi'i baratoi cyn addasu ar gyfer effaith IFRS16 Lesoedd

2.3 Mae'r cais cyllido hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan y Comisiynydd adnoddau digonol er mwyn gallu gweithredu dyletswyddau statudol y Comisiynydd a'r cynllun strategol megis:

- gwireddu'r weledigaeth i hybu'r Gymraeg a chreu cyfleoedd i gynyddu defnydd;
- dylanwadu ar bolisi;
- gweithio gyda sefydliadau i sicrhau cydymffurfiaeth a rhannu arferion da;
- delio gyda chwynion yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg; ac
- ymyrryd mewn achosion llys neu adolygiadau barnwrol.

# 3 Tybiaethau'r Amcangyfrif

3.1 Manylir ar y tybiaethau cynllunio cyffredinol yn yr adran hon.

## Hinsawdd Economaidd a Chwyddiant


3.2 Flwyddyn yn ôl roedd yr hinsawdd economaidd yn ansicr gyda chyhoeddiad cyllideb Canghellor y Trysorlys wedi achosi cynnwrf yn y marchnadoedd ariannol. Mae ffactorau gwladol a rhyngwladol wedi, ac yn parhau i gael effaith ar yr economi megis:

- pwysau yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer nwyddau allweddol fel olew, nwy a bwydydd sylfaenol yn parhau ar draws y byd;
- parhad y rhyfel yn Wcráin yn cyfrannu at ansicrwydd;
- diffyg twf economaidd yn y DU a gwerth y bunt yn parhau i fod yn isel;
- lefel chwyddiant yn uwch yn y DU i'w chymharu â gwledydd eraill;
- effeithiau hyn yn bwydo drwodd i gostau busnesau, costau cynhyrchu a thrafnidiaeth a chostau defnyddwyr a phrynwyr; a

- pwysau i ddyrannu codiadau cyflog uwch, er mwyn digolledu gweithwyr rhag effaith chwyddiant a’r cynnydd i gostau byw.


3.3 Mae’r Amcangyfrif hwn wedi’i baratoi gyda *Monetary Policy Report* a gyhoeddwyd gan Fanc Lloegr ym mis Awst 2023 yn gefndir i ragolygon economaidd y dyfodol.

3.4 Mae’r tabl isod yn dangos y newid sylweddol i lefel chwyddiant a ragwelwyd ac a ragwelir gan Fanc Lloegr.




3.5 Ers paratoi Amcangyfrif 2022-23 ddwy flynedd yn ôl, gwelir bod chwyddiant wedi codi i lefelau nas gwelwyd ers mwy na 30 mlynedd. Roedd y rhagolygon 12 mis yn ôl yn rhagweld byddai chwyddiant yn uwch na 12% ond yn dilyn camau i sefydlogi’r sefyllfa economaidd yn ystod hydref 2022 cododd chwyddiant i ychydig dros 10%. Mae chwyddiant bellach yn lleihau, ond mae disgwyl y bydd yn cymryd mwy o amser i ddychwelyd i darged Banc Lloegr o 2.0%.

3.6 Y prif ddull economaidd i reoli chwyddiant yw cyfraddau benthyg Banc Lloegr ac mae’r banc wedi cynyddu lefel y gyfradd sylfaenol yn rheolaidd dros y misoedd diwethaf. Hefyd, oherwydd bod disgwyl i chwyddiant aros yn uwch am gyfnod hirach mae disgwyl i gyfraddau benthyg aros yn uwch am hirach. Gweler y tabl isod:



3.7 Sgil effaith y ffactorau hyn yw cynnydd i Ofynion Benthyca'r Sector Gyhoeddus (PSBR) ar yr un adeg ag y mae cyfraddau benthyg yn uchel. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar wariant cyhoeddus, gyda chyfran uwch yn cael ei wario ar log i wasanaethu'r ddyled gyhoeddus.

3.8 Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod pwysau ar wariant cyhoeddus ac nad oes modd osgoi'r sgil effeithiau hyn. Ond noder bod y sefydliad hefyd yn cael ei effeithio gan ffactorau, sydd i raddau gwahanol tu hwnt i'w reolaeth, megis cynnydd i gostau cyflogi staff a chynnydd i gostau nwyddau a gwasanaethau.

3.9 Isod ceir sylwadau ar rai elfennau allweddol o gostau rhedeg y Comisiynydd:

## Cyflogaeth

3.10 Er bod gan y Comisiynydd yr hawl i gyflogi 47 swyddog cywerth y pen, fel y nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol; mae toriadau cyllido dros nifer o flynyddoedd wedi gorfodi penderfyniadau anodd i beidio â llenwi pob swydd wrth i swyddogion ymadael, neu newid eu horiau gwaith. Mae'r cynllun yn tybio bydd y sefydliad yn cyflogi 42.6 swyddog cywerth y pen [heb gynnwys y Comisiynydd] yn ystod 2024-25.

3.11 Mae'r Comisiynydd yn parhau â'r egwyddor o gyflogi staff ar delerau, amodau a chyfraddau cyflog sy'n gyson â rhai Llywodraeth Cymru. Ar adeg paratoi'r Amcangyfrif nid yw'r setliad tâl wedi'i gytuno ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, sy'n achosi ansicrwydd.

3.12 Yn y misoedd diwethaf mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi setliadau cyflog i wahanol weithwyr yn y sector cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn 2023-24. Dyma enghreifftiau o rai o'r cynigion ar gyfartaledd:

- Heddlu 7.0%
- Athrawon 6.5%
- Meddygon ac Ymgynghorwyr 6.0%

3.13 Mae'r setliadau cyflog uchod, rhagolygon chwyddiant gan Fanc Lloegr, a chanllawiau ar gyfer setliad cyflog y gwasanaeth sifil a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn dylanwadu ar dybiaethau'r Comisiynydd. Mae'r Amcangyfrif yn tybio setliadau cyflog ar lefel uwch (5.0%) na'r gorffennol, gyda'r setliad yn dychwelyd i lefel mwy arferol erbyn 2025-26 (2.0%). Noder bod y tybiaethau yn is na'r lefelau ar gyfer sectorau eraill.

3.14 Mae costau cyflogi staff yn cwmpasu tua 80% o holl wariant refeniw'r Comisiynydd, felly bydd unrhyw gynnydd i gostau cyflogaeth yn gofyn am gyllid ychwanegol.

3.15 Mae trothwyon a chyfraddau ar gyfer cyfraniadau pensiwn y cyflogwr wedi bod mewn grym ers 2019. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi y bydd cynnydd i'r cyfraddau o 01/04/2024. Effaith hyn ar y sefydliad yw cynnydd ar gyfartaledd i'r cyfraniadau o 27.45% i 28.97% o'r cyflog pensiynadwy.

3.16 Mae trothwyon yswiriant gwladol wedi'u cadw ar yr un lefel ag sydd yn daladwy ar gyfer 2023-24, ar y sail nad oes unrhyw wybodaeth swyddogol wedi ei chyhoeddi i dybio newid.

3.17 Rydym wedi cynllunio ar sail bod unrhyw swydd cyfnod penodol neu secondiad yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod.

3.18 Ceir manylion pellach ar wariant cyflogaeth ym mharagraffau 4.8 i 4.17.

## Costau Gweinyddu

3.19 Yn ein hymateb ar 31/01/2023 i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i gyllido'r Comisiynwyr nodwyd y cyd-destun canlynol mewn perthynas â chostau gweinyddu'r sefydliad.  Yn ail flwyddyn weithredol y sefydliad roedd gwariant ar gostau gweinyddu yn £969,000.Mae'r cynlluniau yn y papur hwn yn tybio costau cyfatebol o £568,000 ar gyfer 2024-25; sy'n arbediad o £401,000 (41.4%).  Gyda chwyddiant CPI dros y cyfnod yma yn 36.5% (cronnus) mae'r arbediad mewn termau real yn cyfateb â £755,000 (57.1%).  Mae hyn yn ddangosydd bod y sefydliad yn chwilio am arbedion yn barhaus, er mwyn byw o fewn y gyllideb.

3.20 Yn unol â llythyr Llywodraeth Cymru yn dyrannu Cyllideb 2022-23 mae prosiect i ystyried gofynion ystâd swyddfeydd y Comisiynydd ar waith.  Mae hyn yn golygu y bydd gofynion swyddfeydd y sefydliad wedi lleihau'n sylweddol erbyn 2024-25 pan fydd y prosiect wedi'i gyflawni.

3.21 Mae'n debygol y bydd effaith ffactorau economaidd ehangach, sydd wedi eu nodi ym mharagraff 3.2 i 3.8 uchod yn effeithio ar gostau gweinyddu'r sefydliad.  Nid yw'r Amcangyfrif hwn yn tybio cynnydd cyffredinol i gostau gweinyddu, heblaw bod tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb.  Y dybiaeth yw y gellir gwneud arbedion i amsugno cynnydd i gostau, ond mae'n bur debyg na fydd modd i'r Comisiynydd osgoi cynnydd i brisiau gan gyflenwyr yn gyfan gwbl.

3.22 Ceir manylion pellach ar wariant gweinyddu ym mharagraffau 4.18 i 4.35.

## Rhaglenni

3.23 Mae cyfanswm y prosiectau a gynigir yn yr Amcangyfrif wedi'u cyfyngu i'r rhai o natur debyg i brosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu ar gyfer 2023-24. Byddwn yn blaenoriaethu'r prosiectau fydd yn cael y dylanwad mwyaf ar gyflawni amcanion y Cynllun Strategol.

3.24 Ceir manylion pellach ar wariant rhaglenni ym mharagraffau 4.36 i 4.38.

## Dibrisiant

3.25 Mae cost dibrisiant wedi ei seilio ar gynlluniau buddsoddi dros y tymor canolig.  Ceir manylion pellach yn adran 5.

## Buddsoddiad Cyfalaf

3.26 Mae'r cynllun wedi ei lunio ar sail adnewyddu isadeiledd TG y sefydliad yn amserol, gyda'r gofynion buddsoddi ar gyfalaf wedi'u hamlinellu yn adran 6.

# 4 Amcangyfrif Gwariant Refeniw a Sylwadau

4.1 Cyflwynir isod fanylion o wariant Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at 2025-26. Er mwyn ariannu'r gweithgareddau sydd yn hanfodol bwysig i strategaeth, blaenoriaethau a gweithrediad effeithiol y sefydliad, gwneir cais am gyllideb refeniw o £3,504,000. Gweler adran 5 ar gyfer ar gyfer symiau nad yn arian parod (dibrisiant), ac adran 6 ar gyfer gofynion cyllido cyfalaf.

| | **Gwariant 2022-23 £000** | **Cyllideb 2023-24 £000** | **Rhagolwg 2023-24 £000** | **Amcangyfrif 2024-25 £000** | **Cynllun 2025-26 £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 2,410 | 2,594 | 2,673 | 2,789 | 2,890 |
| *TAW ar rent swyddfeydd (nodyn 4.2)* | 20 | 17 | 15 | 5 | 5 |
| *Dibrisiant ar asedau hawl i ddefnydd (lesoedd)* | 96 | 84 | 79 | 43 | 43 |
| *Llog ar asedau hawl i ddefnydd (lesoedd)* | 5 | 4 | 6 | 4 | 3 |
| *Costau cynnal swyddfeydd* | 120 | 129 | 119 | 99 | 98 |
| *Dadfeiliadau swyddfeydd* | 7 | - | - | - | - |
| Is-gyfanswm Costau Swyddfeydd | 248 | 234 | 219 | 151 | 149 |
| *Cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol* | 86 | 71 | 71 | 81 | 81 |
| *Costau proffesiynol eraill* | 89 | 96 | 103 | 92 | 93 |
| *Technoleg gwybodaeth* | 120 | 138 | 141 | 137 | 137 |
| *Recriwtio, datblygu a lles* | 42 | 36 | 39 | 41 | 40 |
| *Teithio a chynhaliaeth* | 23 | 36 | 37 | 39 | 39 |
| *Gwasanaethau gweinyddu arall* | 23 | 25 | 25 | 24 | 24 |
| Costau Gweinyddu | 631 | 636 | 635 | 565 | 563 |
| Rhaglenni | 145 | 127 | 139 | 150 | 150 |
| Prosiect TG | 11 | - | - | - | - |
| **CYLLIDEB REFENIW** | **3,197** | **3,357** | **3,447** | **3,504** | **3,603** |
| Cyllideb Refeniw Llywodraeth Cymru | **3,207** | **3,357** | **3,357** | **3,357** | **3,357** |
| (Gorwariant) / Tanwariant | 10 | 0 | (90) | (147) | (246) |

4.2 Noder bod triniaeth rhent ar lesoedd swyddfeydd wedi'i ddadansoddi yn unol ag IFRS 16 o 01/04/2022.

4.3 Ystyrir effaith y ffactorau mwyaf dylanwadol ar wariant y Comisiynydd isod:

## Sylwadau ar y Gorwariant yn Rhagolwg 2023-24

4.4 Mae'r tabl ym mharagraff 4.1 uchod yn nodi bod rhagolwg gwariant 2023-24 yn arwain at orwariant o £90,000, er bod y gyllideb a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn yn cynllunio gwariant yn unol â'r hyn a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru.

4.5 Mae'r ffactorau canlynol wedi cyfrannu at ragolwg o orwariant:

- Taliad untro costau byw ar gost o £72,000, yn unol â'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r undebau llafur.
- Cynnydd i'r dybiaeth ar gyfer codiad cyflog ar gyfer 2023-24 o 4.0% i 5.0% yn arwain at gostau ychwanegol o tua £25,000
- Cynnydd o £11,000 i gostau cynnal digwyddiadau yn yr Eisteddfodau.

4.6 Mae'r cynnydd a nodir uchod wedi'i leihau gan ffactorau megis bylchau yn y strwythur wrth lenwi swyddi yn dilyn ymddiswyddiadau, penodiadau ar rychwant is yn y band cyflog, a pheidio â llenwi swydd adeg secondiad mewnol.

4.7 Mae'r cynlluniau ar waith i ymateb i'r gorwariant sydd wedi'i ragweld, ac mae'r Comisiynydd yn hyderus nad oes risg o orwariant erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-24.

## Cyflogau

4.8 Nodwyd ym mharagraff 3.10 uchod bod strwythur presennol y sefydliad yn cynnwys 47 swydd (heb gynnwys swydd y Comisiynydd), fel a gytunwyd gan Weinidogion Cymru.  Hwn yw'r strwythur sydd yn addas ar gyfer ymateb i swyddogaethau'r Comisiynydd yn unol â Mesur y Gymraeg.

4.9 Mae adran 3 y ddogfen yn nodi ffactorau sy'n effeithio ar gostau cyflogau.  Y ffactor mwyaf allweddol yw'r cynnydd sylweddol i chwyddiant, sy'n debygol o barhau ar lefel uchel am y rhan fwyaf o flwyddyn ariannol 2024-25.

4.10 Bydd hyn yn arwain at bwysau i gytuno setliadau cyflog uwch yn y sector cyhoeddus.  Mae'r Amcangyfrif hwn wedi ei baratoi ar sail ffactorau yn adran 3 a chanllawiau a nodir ym mharagraff 3.13.  Nid oes gan y Comisiynydd ddylanwad na rheolaeth dros lefel y setliadau cyflog gaiff eu cytuno gan Lywodraeth Cymru.  Dymuniad y Comisiynydd yw parhau i dalu ar gyfraddau cyson â'r Llywodraeth, ond mae codiadau cyflog yn rhoi pwysau cynyddol ar gyllideb y sefydliad o ran fforddiadwyedd unrhyw gynnydd.

4.11 Dylid nodi bod Swyddfa'r Cabinet wedi cynghori y bydd cyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cynyddu o 01/04/2024.  Ar gyfartaledd, effaith hyn ar gostau'r Comisiynydd yw cynyddu'r cyfraniadau o 27.41% i 28.97% o'r cyflog pensiynadwy.

4.12 Bydd hyn yn cynyddu costau cyflogaeth rhyw £32,000 ar gyfer 2024-25.  Bu datganiad gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 30/03/2023 yn nodi y byddai cost y cyfraniadau ychwanegol yn cael ei ariannu ar gyfer adrannau llywodraeth.  Y disgwyl yw y bydd y cynnydd yma yn cael ei ariannu'n ganolog.

4.13 Ar sail y tybiaethau hyn, mae'r tabl isod yn crynhoi'r effaith blynyddol ar wahân i'r effaith ar gyfraniadau'r cyflogwr i'r cynllun pensiwn:

| Blwyddyn Ariannol | Codiad % | Cynnydd i gostau yn y flwyddyn £ | Cost wedi'i gynllunio 2023-24 £ | Cost cronnus heb ei gynllunio £ |
|---|---|---|---|---|
| 2023-24 | 5.0% | 123,000 | (98,000) | 25,000 |
| 2024-25 | 5.0% | 132,000 | - | 157,000 |
| 2025-26 | 2.0% | 56,000 | - | 213,000 |

4.14 Dros dair blynedd, ar sail y tybiaethau hyn bydd costau cyflogaeth wedi cynyddu tua £213,000 yn ychwanegol i'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol. Heb gyllid ychwanegol ni fydd codiad 2024-25 yn fforddiadwy a bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cadw o fewn y gyllideb.

4.15 Dros gyfnod o 10 mlynedd bydd costau cyflogi staff wedi cynyddu o 65% i 80% o wariant refeniw'r sefydliad. Dros y cyfnod yma bydd nifer y staff cyflogedig wedi lleihau o'r 47 yn y strwythur i 42.6 cywerth y pen yn y cynlluniau ar gyfer 2024-25.

4.16 Byddai'r lleihad yn nifer y staff wedi bod yn fwy oni bai bod arbedion gwariant wedi'u canfod mewn meysydd gwariant eraill megis costau gweinyddu a rhaglenni. Dylid nodi bod y prosiect i leihau ystâd swyddfeydd y Comisiynydd yn dwyn ffrwyth yn 2024-25. Byddai'n anorfod cynllunio am lai o staff heblaw bod y cynlluniau ar waith i arbed y gwariant yma.

4.17 Gan dybio y bydd cyllid canolog o Drysorlys EF ar gael ar gyfer y cynnydd i'r cyfraniadau pensiwn o £32,000, bydd angen cynnydd pellach i'r gyllideb refeniw o £115,000. Heb gynnydd, bydd angen cyflawni arbedion drwy gostau cyflogaeth, gan beidio â llenwi swyddi wrth iddynt ddod yn wag. Mae'r symiau ariannol yn cyfateb â 2 swydd (lefel HEO) ym mlwyddyn ariannol 2024-25, a 2 swydd ychwanegol (lefel EO) ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Byddai hyn yn lleihau nifer y staff i 38.6 cywerth y pen erbyn 2025-26, sy'n gywerth â cholli tua 10% o staff y sefydliad dros 2 flynedd. Byddai hyn gyfwerth â 82% o'r strwythur llawn o 47.

## Costau Gweinyddu

4.18 Noder manylion pellach ar y categorïau gwariant gweinyddu yn y paragraffau isod.

## Swyddfeydd

4.19 Mae costau cynnal y swyddfeydd yn cynnwys ymrwymiadau cytundebol megis rhent, gwasanaethau landlord, treth annomestig a gwasanaethau cyfleusterau swyddfa. Ym mlwyddyn ariannol 2022-23 roedd yr amryw gostau ynghlwm â'r swyddfeydd yn £248,000 sef 39% o holl gostau rhedeg y sefydliad.

4.20 Mae'r penderfyniad i gau swyddfeydd Caerfyrddin a Rhuthun, ac i wneud rhai gweithwyr yn weithwyr cartref, ac i adleoli swyddfa Caerdydd i ofod llawer llai o faint, yn arwain at leihad sylweddol yng nghostau'r swyddfeydd.

4.21 Roedd y cynlluniau ar y pryd yn rhagweld arbediad o ryw £79,000, gyda'r elfen fwyaf sylweddol o £45,000 yn deillio o leihau maint swyddfa Caerdydd. Mae rhai ffactorau wedi gweithio yn ein herbyn gyda chostau gwasanaethau landlord a chyfleustodau yn cynyddu; hefyd costau ychwanegol ar gyfer desgiau poeth a lwfans gweithwyr cartref.

4.22 Er hyn, mae Amcangyfrif 2024-25 yn rhagweld arbedion o £97,000 i'w cymharu â 2023-23, sydd rhyw £18,000 yn uwch na'r cynlluniau blaenorol. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r costau gyda chymhariaeth â chostau 2022-23, sef y flwyddyn ddiweddaraf cyn i swyddfeydd gael eu cau.

| | Caerdydd £000 | Caernarfon £000 | Caerfyrddin £000 | Rhuthun £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| TAW anadferadwy at y Rhent | - | 5 | - | - | 5 |
| Dibrisiant ar y Lesoedd | 16 | 26 | - | - | 42 |
| Llog ar y Lesoedd | 3 | 1 | - | - | 4 |
| Gwasanaeth ac Yswiriant Landlord | 4 | 16 | - | - | 20 |
| Gwasanaethau Cynnal a Chadw | 17 | 7 | - | - | 24 |
| Treth Annomestig | 6 | 18 | - | - | 24 |
| Trydan, Nwy a chostau eraill | 10 | 9 | - | - | 19 |
| Desgiau Poeth a Lwfans Cartref | - | 1 | 8 | 4 | 13 |
| **Amcangyfrif 2024-25** | **56** | **83** | **8** | **4** | **151** |
| Alldro 2022-23 | 120 | 90 | 30 | 8 | 248 |
| **Arbediad** | **64** | **7** | **22** | **4** | **97** |

## Cyfreithiol a Phroffesiynol

4.23 Mae costau cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol yn gallu amrywio yn sylweddol ac mae'n anodd rhagdybio'n llawn yr amgylchiadau lle bo angen cyngor neu gynrychiolaeth. Mewn rhai blynyddoedd mae'r gwariant wedi bod yn isel, ond roedd gwir wariant 2021-22 yn £110,000 a 2022-23 yn £86,000.

4.24 Yn sgil alinio cyllidebol cyrff llywodraeth ganolog, nid oes modd cadw cronfa wrth gefn at ddibenion achosion cyfreithiol allai godi. Ar gyngor gweision sifil adran gyllid Llywodraeth Cymru mae'r cynllun hwn yn cynnwys lefel cyllido rhesymol a digonol ar gyfer cyngor cyfreithiol a chostau cynrychiolaeth ar sail gwariant y blynyddoedd diweddar. Mae swm o £81,000 wedi ei osod ar gyfer cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol.

4.25 O ran y costau proffesiynol eraill, mae'r gwariant ar y rhain yn sefydlog ac yn adlewyrchu gofynion y sefydliad. Gellir dadansoddi'r gwariant fel a ganlyn:

- Archwilio Cymru (statudol) £20,000
- Archwilio Mewnol £15,000
- Cyfieithu a phrawf ddarllen £42,000
- Yswiriant sefydliadol £13,000
- Ymgynghorwyr £2,000

## Technoleg Gwybodaeth

4.26 Yn sgil y newid i'r isadeiledd, amgylchedd a gwasanaethau yn dilyn gweithredu'r Strategaeth TG, bu lleihad sylweddol i gostau rhedeg gwasanaethau TG y sefydliad, yn cyfateb ag arbediad o 33% i'w gymharu â chostau blaenorol y gwasanaethau.

4.27 Roedd gwir gostau 2022-23 yn £120,000 ond noder bod cynnydd i £137,000 ar gyfer costau TG ym mlwyddyn ariannol 2024-25. O'r cyfanswm gwariant o £137,000 ar gyfer 2024-25 mae £106,000 yn ymrwymiadau cytundebol i weithredu, trwyddedu a chynnal systemau craidd y sefydliad.

4.28 Mae'r gweddill, £31,000, ar gostau nad ydynt yn sefydlog megis:

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau ffôn | £6,000 |
| Offer a gwasanaethau argraffu | £7,000 |
| Gwaith prosiect a diogelwch | £18,000 |

4.29 Mae chwyddiant yn effeithio nifer o gytundebau trwyddedu a thanysgrifio a does dim modd osgoi cynnydd i gostau ar y cytundebau hyn, sy'n hanfodol i wasanaethau TG y sefydliad.  Er hyn, mae gwaith ar fynd, yn barhaus, i geisio canfod arbedion ar gostau'r cytundebau hir dymor.  Yn benodol mae prosiectau ar waith i chwilio am arbedion ar gostau gwasanaethau ffôn ac argraffu yn y flwyddyn i ddod.  Hefyd mae'r arbedion canlynol wedi'u cyflawni neu eu cynllunio'n yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2024-25:

| | |
|---|---|
| Cytundeb Cymorth TG newydd | £8,000 |
| Llai o ofyn am offer TG atodol | £5,000 |
| Terfynu cytundebau diangen | £4,000 |
| Amnewid system Adnoddau Dynol | £1,000 |

4.30 Noder, yn yr hinsawdd o fygythiadau rheolaidd a mwy soffistigedig i isadeiledd TG sefydliadau, y byddai risg uchel wrth gwtogi gwariant ar brosiectau diogelwch, a byddai'n annoeth torri'r gyllideb, gan ystyried yr ymosodiad seibr ar y sefydliad yn 2020.

4.31 Mae un gost ychwanegol wedi ei chynllunio ar ei chyfer yn 2024-25, sef costau ar gyfer system MS Dynamics.  Mae hyn ar gyfer tanysgrifiad a thrwyddedu defnyddwyr y system, ar gost o £35,000.

### Recriwtio, Datblygu a Lles

4.32 O'r gwariant o £42,000 ar Recriwtio, Datblygu a Lles, mae £23,000 wedi'i gyllidebu ar gyfer hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant hanfodol ar iechyd a diogelwch a diogelwch tân.  Nid yw'r swm yn sylweddol, ac mae'n cyfateb i tua £490 y pen.  Mae torri gwariant ar hyfforddiant yn benderfyniad sy'n cael ei weld yn un hawdd, ond y traweffaith yw'r posibilrwydd na fydd gweithwyr yn cael eu hyfforddi yn briodol.

4.33 Mae gweddill y gyllideb ar gyfer costau megis recriwtio (£5,000); seminarau a chynadleddau mewnol ac allanol (£4,000); aelodaeth sefydliadol a phroffesiynol staff (£4,000); a materion lles staff (£4,000).

### Teithio a Chynhaliaeth

4.34 Mae £39,000 wedi'i gynllunio ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth.  Cyn cyfnod covid-19 roedd y costau tua £80,000 y flwyddyn, ond gwelwyd lleihad i tua £3,500 yn ystod cyfnod covid-19.  Er bod y costau yn uwch na'r blynyddoedd diweddar, maent yn sylweddol llai na chyn cyfnod covid-19.

4.35 Gyda staff y sefydliad yn gweithio o ddwy swyddfa a nifer yn gweithio o gartref, mae'r cyllid wedi'i gynllunio ar gyfer gwaith megis dod â'r timau at ei gilydd yn gyfnodol, a chyfarfodydd a digwyddiadau wyneb-yn-wyneb gyda rhanddeiliaid lle bo amgylchiadau yn gofyn.  Fel arall defnyddir dulliau rhithiol i ymgysylltu yn fewnol ac yn allanol heb wario ar gostau teithio yn ddiangen.

## Rhaglenni

4.36 Mae pot o £150,000 wedi'i ddynodi ar gyfer rhaglenni ym mlwyddyn ariannol 2024-25. Byddai angen £59,000 er mwyn ariannu rhaglenni sylfaenol megis:

- mynychu'r Eisteddfodau;
- trwydded Geiriadur yr Academi;
- cynnal y Gronfa a'r Panel Enwau Lleoedd; a
- dosbarthu nwyddau Iaith Gwaith.

4.37 Mae gweddill y gyllideb o £91,000 ar gyfer cyflawni rhaglenni sy'n gwireddu amcanion a blaenoriaethau'r Cynllun Strategol. Mae'r rhaglenni hyn yn cwmpasu gwaith megis:

- Adroddiad Sicrwydd;
- arolygon Omnibws;
- arolygon yn y maes Rheoleiddio a rhannu'r arferion effeithiol;
- gwaith Hybu yn y sector preifat a gwirfoddol; a
- gweithgareddau marchnata a chyhoeddusrwydd.

4.38 Pe bai angen chwilio am arbedion i ysgwyddo'r gorwariant, ac na fyddai cynnydd i'r gyllideb refeniw, byddai angen cwtogi ar y rhaglenni y byddai modd eu hariannu. Sgil effaith hyn fyddai methu â chyflawni amcanion y Cynllun Strategol yn llawn.

# 5 Dibrisiant

5.1 Mae’r cynlluniau buddsoddi mewn systemau technoleg yn 2023-24 hyd 2025-26 sydd wedi eu nodi yn adran 6 yn arwain at gostau dibrisiant ac amorteiddio fel y gwelir yn y tabl isod:

| | Rhagolwg 2022-23 £000 | Amcangyfrif 2023-24 £000 | Cynllun 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|
| Asedau Sefydlog ar 31/03/2023 | 51 | 28 | 22 |
| System Rheoli Achosion | 12 | 47 | 47 |
| Buddsoddiad TG | 6 | 32 | 45 |
| Cynlluniau Swyddfeydd | 2 | 7 | 7 |
| Amhariad gwerth asedau swyddfa (gweler 5.3) | 57 | | |
| **Cyfanswm Dibrisiant** | **128** | **114** | **121** |
| Cyllideb Llywodraeth Cymru | 169 | | |
| Tanwariant | 41 | | |

5.2 Oherwydd oedi i amseriad y buddsoddiad ar y System Rheoli Achosion, sydd dan ddatblygiad, mae amseriad y dibrisiant yn ddibynnol ar pryd y bydd y datblygiad wedi ei gwblhau a’r system yn cael ei ‘gomisiynu’ a’i wneud yn weithredol.

5.3 Noder bod rhagolwg o £57,000 ar gyfer amhariad yng ngwerth asedau yn ymwneud â gwaredu asedau o swyddfeydd Caerdydd, Caerfyrddin a Rhuthun, lle nad oes modd eu trosglwyddo, neu nad oes gwerth ymarferol nac economaidd iddynt yn y dyfodol.

# 6 Buddsoddi ar Gyfalaf

6.1 Mae'r tabl isod yn amlinellu prif elfennau'r gofynion gwariant ar gyfalaf:

| | Rhagolwg 2023-24 £000 | Amcangyfrif 2024-25 £000 | Cynllun 2025-26 £000 |
|---|---|---|---|
| Adnewyddu'r ystâd gyfrifiadurol | 30 | 30 | 20 |
| Datblygiadau TG | - | 20 | 30 |
| Datblygiadau'r Wefan | 8 | 10 | 10 |
| Fideo-gynadledda ystafelloedd cyfarfod | 15 | | |
| Rhyngwyneb Cronfa Enwau Lleoedd | 30 | | |
| Datblygiadau'r System Rheoli Achosion | 5 | | |
| Addasiadau swyddfa newydd Caerdydd | 35 | | |
| **Cyfanswm Buddsoddiad** | **123** | **60** | **60** |

6.2 Mae cais am £30,000 yn 2023-24 a £30,000 pellach yn 2024-25 er mwyn adnewyddu ystâd gyfrifiadurol y defnyddwyr, wrth i'r asedau hyn ddod i ddiwedd eu bywyd economaidd. Hefyd mae symiau wedi'u cynnig ar gyfer datblygiadau TG cyffredinol a datblygu'r wefan.

6.3 Mae'n holl bwysig buddsoddi mewn offer a gwasanaethau cyfredol er mwyn sicrhau perfformiad da ar gyfer y defnyddwyr; ond yn bwysicach er mwyn sicrhau bod yr offer yn gyfredol ac yn cynnal systemau gweithredu sy'n cydymffurfio â'r safonau diogelwch mwyaf diweddar ac yn cael eu cefnogi gan y gwneuthurwyr.

6.4 Roedd disgwyl i'r buddsoddiad ar gyfalaf yn 2023-24 ar gyfer gwaith addasiadau a gosodiadau swyddfa amgen yng Nghaerdydd fod tua £125,000. Gyda'r penderfyniad i rannu gofod mewn adeilad corff cyhoeddus arall, y dybiaeth yw y bydd yr anghenion yn llai. Er nad oes costau cadarn wedi'u derbyn hyd yma, rhagwelir buddsoddiad o tua £35,000 yn 2023-24.

# 7 Gofynion Arian Parod

7.1 Yn unol ag egwyddorion cyfundrefn Alinio Cyllidebol Cyrff Llywodraeth Ganolog, sef:

- ni ddylid tynnu arian parod i lawr yn gynharach na phan fydd yr angen yn codi;
- ni ddylid cadw mwy na 5% o wariant blynyddol y sefydliad mewn cyfrif banc ar ddiwedd unrhyw chwarter;

ac ar sail yr Amcangyfrif a'r cynlluniau gwariant sydd wedi'u hamlinellu, nodir y gofynion arian parod ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yn y tabl isod:

| | Mantolen 31/03/23 £000 | Gwariant Refeniw £000 | Gwariant Cyfalaf £000 | Dibrisiant Asedau £000 | Asedau Hawl i Ddefnydd £000 | Newid i Ddyledwyr Credydwyr £000 | Gofynion Arian Parod £000 | Balans 31/03/24 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau sefydlog | 431 | | 60 | (114) | | | | 377 |
| Asedau hawl defnydd | 98 | | | | (43) | | | 55 |
| Symiau derbynadwy | 1 | | | | | | | 1 |
| Rhagdaliadau | 63 | | | | | | | 63 |
| Arian parod | 181 | (3,461) | (60) | | 7 | | 3,508 | 175 |
| Taliadau masnachol | (73) | | | | | | | (73) |
| Croniadau | (133) | | | | | | | (133) |
| Credydwyr arall | (48) | | | | | | | (48) |
| Ymrwymiad lesoedd | (103) | | | | 36 | | | (67) |
| Darpariaethau | (113) | | | | | | | (113) |
| **Ecwiti'r Trethdalwr** | **304** | **(3,461)** | **-** | **(114)** | **-** | **-** | **3,508** | **237** |

7.2 Gall y Comisiynydd gadw hyd at £176,000 yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Amcangyfrif hwn yn cynllunio mai £3,508,000 bydd cyfanswm yr arian parod y bydd angen ei dynnu lawr ar gyfer 2024-25.